# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 9 Tachwedd 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

## 30(v3)

---

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Yr Economi Sylfaenol

(45 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Cymru ac Affrica

(45 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021

(20 munud)

**NDM7822 – Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 6 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021

(15 munud)

**NDM7821 – Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Hydref 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 7 Dadl: Cynnwys Pleidleiswyr

(60 munud)

**NDM7818 – Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i foderneiddio gweinyddu etholiadol yng Nghymru er mwyn sicrhau y gall pobl bleidleisio a bod eu pleidleisiau yn cael eu cyfrif.

2. Yn nodi egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio Etholiadol fel y nodwyd yn natganiad ysgrifenedig y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar 15 Gorffennaf 2021.

3. Yn gofidio am y cynigion gan Lywodraeth y DU i gyflwyno mesurau ar gyfer adnabod pleidleiswyr a chyfyngu ar fynediad at bleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy, a fydd yn atal pleidleisio ac yn amddifadu pobl yng Nghymru o'u hawliau democrataidd sylfaenol.

Datganiad Ysgrifenedig: Fframwaith ar gyfer diwygio etholiadol - 15 Gorffennaf 2021

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu y dylai etholiadau yng Nghymru fod yn rhydd ac yn deg.

2. Yn croesawu Bil etholiadau Llywodraeth y DU a'i ddarpariaethau i gryfhau uniondeb etholiadau.

3. Yn nodi bod cyflwyno mesurau ar gyfer adnabod pleidleiswyr wedi'i gefnogi gan y Comisiwn Etholiadol a bod swyddfa sefydliadau democrataidd a hawliau dynol y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop wedi nodi bod eu habsenoldeb yn risg diogelwch.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i wella uniondeb yr holl etholiadau a gynhelir yng Nghymru.

## 8 Dadl: Cofio a chefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru

(60 munud)

**NDM7819 – Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cofio ac yn cydnabod cyfraniad y rheini sydd wedi gwasanaethu ac sy'n parhau i wasanaethu yn ein Lluoedd Arfog, yn arbennig y rhai a gollodd eu bywydau.

2. Yn croesawu ac yn talu teyrnged i'r cymorth a roddir gan sefydliadau'r trydydd sector i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, yn arbennig y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n dathlu can mlynedd o fodolaeth.

3. Yn mynegi ei gwerthfawrogiad llwyr o ymdrechion y Lluoedd Arfog gydol pandemig COVID-19 ac am y cymorth y maent yn parhau i'w ddarparu mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys i Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

4. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i anrhydeddu Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy ddarparu gwasanaethau a chymorth pwrpasol i gymuned y Lluoedd Arfog a thrwy gydweithio ac ymgysylltu yn barhaus â rhanddeiliaid.

**Cyd-gyflwynwyr**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Sian Gwenllian (Arfon)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol**:

**Gwelliant 1 - Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r angen i ymdrechu i gael datrysiad heddychlon i bob gwrthdaro a rhoi terfyn ar ryfel.

Yn cofio pawb sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd a gwrthdaro, gan gynnwys anafusion sifil.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 04/11/2021 i'w hateb ar 09/11/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Hefin David** *Caerffili*

1 OQ57168 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â COVID-19 yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ57167 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch y bwlch cyflog ar sail rhywedd yng Ngorllewin De Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

3 OQ57132 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector gofal yn ystod y pandemig?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ57135 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i helpu cymunedau Cymru i ymgysylltu â diwrnod y cofio?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ57142 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gweithio o bell yng Nghymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ57129 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno band eang ffibr llawn?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ57159 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi personél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr?

8

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ57171 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bydd ei bresenoldeb yn COP26 o fudd i drigolion Dyffryn Clwyd?

9

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

OQ57169 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau chwaraeon elît yng Ngogledd Cymru?

10

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

OQ57127 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau ambiwlans yng Ngorllewin De Cymru?

11

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ57164 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ledled Cymru?

12

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

OQ57156 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael ag amseroedd aros mewn ysbytai yng Ngogledd Cymru?